CYMDEITHAS GWAITH MAES
RHIFYN 35
TACHWEDD 2007

Hafod Eryri - Adeilad Newydd Copa'r Wyddfa

gan Wasanaeth Addysg Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri

Mae yna gryn newid wedi bod ar gopa'r Wyddfa ers yr erthygl ddiwethaf. Ym mis Mai, dim ond sylfaen yr hen adeilad oedd i'w weld. Ydych chi yn cofio gweld y llun yma?

Mae cryn newid wedi bod ers hynny. Bellach, mae'r strwythr i'w weld yn glir. Mae'r fframyn ei lle, mae'r tô wedi cael ei osod ac mae'r ffenestri i mewn. Mae'r adeilad felly yn ddiddos erbyn y gaeaf a bydd gwaith yn parhau tu mewn iddo yn y cyfnod yna i'w baratoi yn barod erbyn Haf 2008.

Ers rhai misoedd bellach mae disgyblion Ysgol Gynradd Beddgelert ac Ysgol Gynradd Dolbadarn, Llanberis wedi bod yn paratoi deunyddiau er mwyn eu claddu am hanner cant o flynyddoedd mewn Capsiwl Amser sydd i'w gosod yn sylfeini'r adeilad newydd.

Mae'r deunydd mae'r plant wedi bod yn ei baratoi yn cynnwys straeon a lluniau teuluol, cofnodion sy'n adrodd hanes bywyd bob dydd o fewn eu hysgolion a'u cymuned a ffeithiau lleol. Ar y 22ain o Hydref, trosglwyddwyd gwaith y disgyblion i Carillion, y cwmni sydd yn gyfrifol am yr adeiladu. Bydd y gwaith yn awr yn cael ei osod yn y capsiwl cyn iddo gael ei lenwi a nwy arbennig a'i selio. Bydd yr adeiladwyr yn claddu'r capsiwl yn sylfeini'r adeilad newydd.

Y bwriad yw ail agor y capsiwl ymhen hanner cant o flynyddoedd pan fydd y plant yn tynnu am oed eu pensiwn.

Gallwch weld mwy o luniau o'r datblygiad difyr yma trwy edrych ar y gwefannau yma: www.snowdonia-active.com a www.eryri-npa.gov.uk a cewch weld mwy yn y gwerifyn nesaf.